# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

**3/9/2025**

**Presennol:** Eleri Jones (is-Gadeirydd), D Clwyd Davies, Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts

Cynghorydd Gwynedd: Alan Jones Evans

Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eleri Jones (Is-Gadeirydd), a derbyniwyd ymddiheuriadau Gwyn Roberts (Cadeirydd) a W D Williams.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 7/7/2025.
5. Cyngor Gwynedd – Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a ddywedodd ei fod wedi cael sicrhad y bydd llinellau clir yn cael eu paentio ar gyffordd Glyn Bach a fydd yn dynodi pa gerbyd sydd a'r hawl i yrru ymlaen a pha gerbyd sy'n gorfod ildio i'r drafnidiaeth.

   Mae mewn trafodaethau gyda swyddogion ynglŷn a'r cam ddefnydd gan dai gwyliau o'r safle ailgylchu wrth Pant yr Onnen a ddynodir at anheddau penodol. Mae'r broblem hon yn bodoli trwy'r tymor gwyliau.

   Mae pryderon lleol yn parhau parthed annedd yn Llangywer, a derbyniodd y Cynghorydd ymateb gan Adra. Trafodwyd nad mater o denantiaeth yn unig sy'n bryder, ond bod dyletswydd ar Adrannau eraill gyd-drafod hefyd.

   Mae pryderon yn parhau yng nglyn â chyflymdra trafnidiaeth wrth Tŷ'n Gwrych, a bydd y Cynghorydd yn holi eto am arwydd yn rhoi rhybudd bod terfyn cyflymdra 40mya o'u blaen wrth i gerbydau deithio o gyfeiriad y Berwyn.
6. Materion Lleol
   1. Triathlon 7/9/25: Cynigodd Clwyd Davies i roi cymorth wrth bont Mwnwgl y Llyn.
   2. Diolchwyd i Barc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd am y mesurau oedd mewn lle dros yr Haf i liniaru problemau gor-dwristiaeth. Roedd y wardeiniaid nos, y camerâu ANPR, wardeiniaid yn cau mynediad, loriau'n llusgo ceir, y Glirffordd a'r arwyddion, yn ogystal ag ymweliadau gan yr Heddlu, wedi bod yn effeithiol iawn. Mae'r Cyngor Cymuned yn edrych ymlaen at gyd-weithio pellach gyda'r cyrff hyn ac yn ddiolchgar am y cyd-weithio a fu. Edrychir ymlaen at gatiau yn rhwystro parcio hwyr a thros nos er mwyn diogelwch ymwelwyr, pobl leol a chynefin y llyn. Cytunwyd i ysgrifennu i fynegi ein diolch.

7. Derbyniwyd adroddiad cynrychiolwyr Cwmni Pum Plwy Penllyn a dywedodd Tyly Roberts fod Canolfan Henblas yn hynod o brysur, a bod ail ran o waith uwchraddio Canolfan Bro Tegid ar y gweill.

8. Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc o gyfarfod ardal Un Llais Cymru ym Mhenrhyndeudraeth ym mis Gorffennaf. Cyfeiriodd ar wefan newydd Un Llais Cymru a rhannodd y cod mynediad iddo.

9. Ariannol: Cafwyd adroddiad llawn o'r sefyllfa ariannol.

   Derbyniwyd ail daliad y Praesept; talwyd am dorri gwair y fynwent ym mis Awst; cymeradwywyd talu costau teithio'r Clerc am gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod Un Llais Cymru (rhannu gyda Llanuwchllyn). Cafwyd trafodaeth ar y codiad o 25% yn anfoneb Cyngor Gwynedd am wasanaeth ariannol er na fu unrhyw anhawster yn y cyfrifon. Roedd y Cyngor yn anhapus gydag eglurhad Cyngor Gwynedd am y cynnydd hwn, a chytunwyd i beidio a thalu'r anfoneb ond i apelio am ail asesiad.

   Bu cais y Cyngor am grant Gwynedd Ni yn llwyddiannus a chytunwyd i fwrw ymlaen gyda'r cynlluniau.

10. Asedau:

    i. Di-ffib Llangywer a Rhosygwaliau- dim problemau

    ii. Y fynwent – dim problemau; bydd yr afalau a'r ffrwythau yn barod cyn hir i'w casglu gan y trigolion.

11. Cais Cynllunio NP5/70/123D Garth Lwyd, Y Bala, LL23 7PL – cymeradwywyd.

12. Gohebiaeth:

    i. Cynrychiolydd i Ŵyl Glanllyn Medi 27 -cytunodd Tyly Roberts i fynychu.
    ii. Llythyr cyflwyniad Deb Critchley, Swyddog Cyswllt Cymunedol Gofal Canser Tenovus .
    iii. Un Llais Cymru: derbyniwyd gwybodaeth am Hyfforddiant, y Bwletin a'r Gynhadledd Flynyddol.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 10/11/25

Amser gorffen: 8.50pm